

DOLEN Y TAB – 43

19–20 CHWEFROR 2021

OEDFA RITHIOL 21 CHWEFROR

Sylwer y bydd yr oedfa hon yn addas i bob oed. Myfyrdod gan Lyn ac Iwan West a stori gan Gwilym Treharne.

Gwasanaeth i godi calon.

YR OEDFAON NESAF

Chwefror

28 Lowri, Dafydd a'r teulu.

Mawrth

7 Y Parchg. Aled Edwards.

14 Edwyn Evans.

21 Y Parchg. Gethin Rhys.

28 Emlyn Davies.

Hefyd ar 21 Chwefror . . .

11.00 S4C Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol

Bydd yr oedfa o dan ofal y Parchg. Huw Dylan Jones, Gofalaeth Bro Uwchaled.

12.00 Oedfa Radio Cymru

Sul cyntaf y Grawys yng ngofal Sheridan Angharad James, Llundain.

12.30 Radio Cymru

Bwrw Golwg gyda John Roberts.

E-fwletin Cristnogaeth21 newydd i'w weld bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

RHAGOR O'R BWRDD

Ymhlith y materion gafodd sylw'r Bwrdd yng nghyfarfod Chwefror roedd derbyn adroddiad yr Is-bwyllgor Arloesi a Buddsoddi. Roedd y pwyllgor hwnnw wedi cymryd stoc o ble rydym ar hyn o bryd fel eglwys trwy gynnal ymarferiad SWOT i asesu ein cryfderau a'n gwendidau presennol, ynghyd â nodi'r cyfleoedd a'r bygythiadau wrth edrych tua'r dyfodol. Gosodwyd 'gwaith cartref' i bob aelod o'r Bwrdd trwy eu gwahodd i lunio sylwadau ac awgrymiadau mewn ymateb i'r dadansoddiad hwnnw. Caiff adborth aelodau'r Bwrdd ei wyntyllu yng nghyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor wrth iddynt gloriannu'r cyfleoedd sydd ar gael a gweld pa rai y dylid eu blaenoriaethu yn y gobaith o'u troi'n gynlluniau penodol. Wedi cwblhau'r dasg hon, y cam nesaf fydd gwahodd barn yr aelodau ar y cynlluniau hynny.



**PYTHEFNOS
MASNACH DEG
22/2/2021 – 7/3/2021**

Ddydd Llun, caiff Pythefnos Masnach Deg 2021 ei lansio. Y nod eleni yw dangos yr heriau cynyddol mae newid hinsawdd yn ei olygu i ffermwyr a gweithwyr cymunedau Masnach Deg. Dyma'r dystiolaeth a gafwyd gan y ffermwyr a'r gweithwyr hynny:

- newid yn yr hinsawdd yw'r her fwyaf ar hyn o bryd; eisoes, gwelwyd ei effaith ar sychder, clefydau i gnydau, llifogydd, gwres didostur a chynaeafau sy'n crebachu'n flynyddol;
- mae prisiau isel am y cnydau'n golygu eu bod yn ei chael yn anodd ymdopi;
- gyda'r pandemig COVID byd-eang mae'r heriau a wynebir bellach yn fwy nag erioed, gyda phrisiau is a thrafferthion ar hyd y cadwyni cyflenwi.
- teimlant fod ganddynt fwy o adnoddau i ddiwallu eu hanghenion beunyddiol a mynd i'r afael â heriau newid hinsawdd wrth dderbyn rhagor o arian drwy'r cynllun Masnach Deg.

Fel eglwys sydd wedi ei chofrestru'n Eglwys Masnach Deg, roedd hi'n fwiad gennym i ddatblygu cynlluniau newydd i gefnogi'r ymgyrch eleni, ond yn anffodus mae'r pandemig wedi rhwystro cyflwyno'r cynlluniau hynny dros dro, fel llawer ddigwyddiad arall ar hyd a lled Cymru. Yn y cyfamser, fodd bynnag, efallai y gallem, fel teuluoedd neu unigolion, ystyried pa gamau pellach y medrwn eu cymryd i gefnogi'r gwaith pwysig a wneir gan yr Ymddiriedolaeth Masnach Deg nid yn unig dros y pythefnos nesaf ond drwy'r flwyddyn ar ei hyd. [Ceir gwybodaeth am nwyddau masnach deg ar wefan Cymru Masnach Deg <https://fairtradewales.com/we/>].

SAF ar ei draed

Yn rhifyn yr wythnos ddiwethaf o'r *Tyst*, neilltuwyd y cyfan o'r dudalen flaen i adrodd manylion yr hyn a gyflawnwyd gan SAF, sef y fferyllfa a'r feddygfa ym Madagasgar oedd ymhlith y prosiectau i dderbyn nawdd trwy *Apêl Madagasgar 2018/19* yr Undeb. Adroddir sut y galluogodd y gefnogaeth i SAF

adeiladu ystafell aros i 20 claf, codi ystafell i'w defnyddio fel swyddfa weinyddol newydd, ac addasu'r swyddfa weinyddol wreiddiol yn ofod pwrpasol i gynnal archwiliadau uwch-sain ar famau beichiog ac anhwylderau abdomenol-pelfig a phrostatig. Hefyd, galluogodd yr arian iddynt brynu offer uwch-sain cymwys oedd ei angen arnynt i gwblhau'r prosiect yn llwyddiannus. Bellach, mae safon yr archwiliadau uwch-sain a gofal cleifion yn gyffredinol wedi gwella'n aruthrol. Mawr hyderir mai canlyniad y gwasanaeth gwerthfawr hwn fydd gostyngiad yn nifer y plant a menywod fydd yn marw adeg genedigaeth, a gwell diagnosis a rheolaeth therapiwtig o fewn y fferyllfa. Diolch i bawb gyfrannodd at y prosiect gwerthfawr hwn.

(Mae modd darllen yr adroddiad llawn ar-lein yn **Y Tyst**, 11 Chwefror, <https://annibynwyr.org/>)



PERERINDOTA – DDOE A HEDDIW

Cyn eleni, un o ddefodau misoedd lonawr a Chwefror i lawer oedd treulio nosweithiau llwm a thywyll y flwyddyn yn trefnu gwyliau haf. Mor gynnar â Gŵyl San Steffan, byddai hysbysebion drudfawr o draethau aur dan haul tanbaid yn llenwi'r sgrin deledu ynghyd â thudalennau cylchgronau wrth i'r cwmnïau teithio gystadlu am y gorau i'n denu i archebu o blith eu 'barginion' niferus. Wrth i brisiau hedfan ostwng dros y degawdau diwethaf, daeth ymweld â gwledydd ym mhellafoedd byd o fewn cyrraedd mwy a mwy o deuluoedd. Ond yn sgil y cyfyngiadau llym ar deithio tramor, mae 2021 mor belled wedi bod yn eithriad. Amser yn unig a ddengys a fydd modd adfer y diwydiannau hedfan a gwyliau i'r un lefel pan fyddwn yn symud i'r cyfnod ôl-pandemig.

Gorwelion llawer iawn llai oedd gwyliau haf i lawer iawn o'n hynafiaid rhwng ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at y 1950au. I'r mwyafrif o deuluoedd cymoedd diwydiannol Morgannwg, rhaid oedd bodloni ar wythnos neu ddwy mewn tref glan y môr megis Dinbych-y-pysgod neu Borth-cawl, neu aros gyda theulu oedd yn dal i fyw yng nghefn gwlad Cymru. Ond doedd yr ysfa i fanteisio ar hirddydd haf i grwydro tu hwnt i'r filltir sgwâr ddim yn ffenomen gwbl estron ymhell cyn bod modd dibynnu ar wasanaeth trenau neu awyrennau i'n cludo i ardal neu wlad arall. Yn ddiddorol iawn, bu'r Eglwys Gristnogol yn chwarae rhan hynod allweddol wrth annog ein cyn-deidiau i deithio y tu hwnt i'w cynefin trwy ymuno â phererindod.

Mor gynnar â'r bedwaredd ganrif, roedd arweinwyr eglwysig yn annog dilynwyr Crist i ymweld â lleoliadau pwysig yn hanes bywyd yr Iesu, megis Bethlehem a Jerusalem. Amcan ysbrydol oedd i'r teithiau hyn yn wreiddiol, i alluogi'r pererinion i ddyfnhau eu dealltwriaeth o Dduw neu i gryfhau eu perthynas gyda'r Iesu. Wrth i'r ffydd Gristnogol ymledu ar draws Ewrop, Affrica, Asia a thu hwnt, ychwanegwyd lleoliadau newydd oedd tipyn haws eu cyrraedd megis Rhufain, Eglwys Gadeiriol Santiago de Compostela, a Chadeirlan Caergaint yn Ewrop. Gan



Cadeirlan Santiago de Compostela

amlaf, byddai arwyddocâd hanesyddol neu ysbrydol i'r lleoliadau hyn fyddai'n cryfhau ffydd y pererinion. Ond fel y dangosodd Geoffrey Chaucer yn ei gerdd ddychan enwog, 'Canterbury Tales', nid oedd cymhellion y pererinion bob amser yn rhai dyrchafol, a thros amser byddai rhai'n ymuno â mintai o bererinion i fwynhau'r gwmnïaeth a chael 'amser da'.



Pererindodau yng Nghymru

Yma yng Nghymru byddai llawer iawn yn cyrchu i fannau sanctaidd megis Tyddewi a Ffynnon Gwenffrewi yn Nhreffynnon yn enwedig yn ystod yr Oesoedd Canol. Er enghraifft, yn y flwyddyn 1123, wedi i'r Pab Calixtus II ddyfarnu bod dau ymweliad â Thyddewi yn gyfwerth ag un i Rufain, a thri ymweliad yno'n gyfwerth ag un i Jerusalem, chwyddodd yr ymweliadau'n sylweddol a chododd yr incwm o 'gyfraniadau' pererinion i'r fath raddau fel y galluogwyd yr awdurdodau i godi eglwys gadeiriol urddasol yno.

Cyrhaeddodd y traddodiad o bererindota i leoliadau sanctaidd ei anterth yng Nghymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg – canrif a brofodd dlodi enbyd, terfysgoedd a heintiau difaol megis y Pla Du. Wedi'r cyfnod hwn, dadrithiwyd llawer wrth sylweddoli bod yr awdurdodau eglwysig yn manteisio ar eu grymoedd i godi tâl na ellid ei gyfiawnhau ar dlodion a'r afiach er mwyn iddynt fedru cyffwrdd â chreiriau neu dderbyn maddeuant am eu pechodau. Diflannodd yr arferiad yng Nghymru bron yn llwyr, yn enwedig wedi dyfodiad y Diwygiad Protestanaidd. Felly, er ei fod yn nodwedd ddigon disylw yng Nghymru ers amser maith, o'i gymharu â'r bri a welir o hyd ar bererindota yn y gwledydd hynny lle mae'r traddodiad Catholig yn gryf iawn, nid yw wedi diflannu'n gyfan gwbl o'r tir.

Adferiad Diweddar

Ond, yn ddiweddar, mae diddordeb o'r newydd yma yng Nghymru mewn pererindota i fannau cysegredig. Y daith sydd wedi derbyn y sylw pennaf yw Llwybr y Pererinion o Dreffynnon i Ynys Enlli – 'Camino Cymru'. Ceir llawer o fanylion am y Llwybr ar eu gwefan swyddogol – <https://pilgrims-way-north-wales.org>. Yn nes adref, ac yn daith gan milltir yn fyrrach, mae Ffordd Pererindod Penrhys sy'n ymlwybro o Gadeirlan Llandaf trwy Radur, Creigiau a Llantrisant, Tonyrefail a Dinas cyn cyrraedd Penrhys. Unwaith yn rhagor ceir manylion y daith ar eu gwefan www.penrhyspilgrimage.wales/cym/

Tybed, yn y cyfnod ôl-pandemig, y bydd mwy o fri ar deithiau cerdded i leoliadau sanctaidd Cymru, ac mai cynllunio teithiau fel yr uchod y byddwn yn ystod misoedd geirwon dechrau'r flwyddyn o hyn allan?

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.*

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: gehpenwgern@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.